# Gostyngeiddrwydd

Philipiaid 2

Geiriau: Cass Meurig
Tôn: Y Gwŷdd (tradd)




A phan oedd ar wedd ddynol yn ei oes, yn ei oes,
Dewisodd Iesu'n Harglwydd ddioddef loes, ddioddef loes,
A'i wneud ei hun yn llai,
Er nad oedd arno fai,
Yn ufudd hyd at angau ar y Groes, ar y Groes.

Am hynny tra dyrchafwyd Ef gan Dduw, Ef gan Dduw,
A rhoi yr enw uchaf iddo'n fyw, iddo'n fyw.
Pob glin o dan y nef
Yn plygu iddo Ef,
Pob tafod yn cyfaddef: Iesu'r Arglwydd yw, Iesu'r Arglwydd yw.